



29 Medi 2022

## Annwyl Bennaeth y Ganolfan

Gobeithio bod dechrau'r flwyddyn academiaidd newydd wedi bod mor hwylus â phosibl i chi, eich cydweithwyr a'ch dysgwyr. Unwaith eto, hoffem ni ddiolch i chi a'ch tîm am eich holl waith yn cefnogi'r broses o ddychwelyd i arholiadau ac asesiadau allanol.

Nawr eich bod wedi setlo i dymor yr hydref, hoffem ni roi gwybod i chi am nifer o faterion gan gynnwys y trefniadau ar gyfer arholiadau ac asesiadau yn y flwyddyn academiaidd hon.

## Cyfres Arholiadau 2022/23

Y tymor diwethaf, [fe wnaethon ni ysgrifennu atoch chi](#) i gadarnhau y bydd **gwybodaeth ymlaen llaw** yn cael ei rhoi ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch gwneud-i-Gymru ar gyfer 2022/2023. Ni fydd unrhyw addasiadau TGAU, UG a Safon Uwch blaenorol yn berthnasol mwyach.

Cyhoeddodd CBAC [wybodaeth ymlaen llaw](#) ar gyfer cyfres arholiadau mis Tachwedd ym mis Mehefin. Bydd rhagor o wybodaeth ymlaen llaw yn cael ei rhyddhau ar gyfer cyfres arholiadau Ionawr 2023 yn ddiweddarach y tymor hwn, ac ar gyfer cyfres arholiadau haf 2023 yn ystod tymor y gwanwyn.

Mae bwrdd Cymwysterau Cymru bellach wedi ystyried, ac wedi penderfynu ar y dull o raddio ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon. Mae'r bwrdd wedi penderfynu mai ein dull o raddio yn haf 2023 fydd cyrraedd pwynt hanner ffordd yn fras rhwng canlyniadau 2019 a 2022.

Mae hyn yn parhau â'n taith yn ôl i ganlyniadau cyn y pandemig, tra hefyd yn parhau i gefnogi dysgwyr, ysgolion a cholegau sy'n parhau i gael eu heffeithio gan golli dysgu. Mae rhagor o fanylion [i'w cael yma](#).

Mewn achos annhebygol o darfu ar gyfres arholiadau'r haf, dylai ysgolion a cholegau gadw tystiolaeth o asesiadau pwysig a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, gan y dibynnir ar drefniadau wrth gefn blaenorol.

### Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



### Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

## **Dweud eich dweud ar gymwysterau TGAU**

Fel rhan o'n rhaglen [Cymwys ar gyfer y dyfodol](#), rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gydag athrawon, arbenigwyr pwnc a llawer o rai eraill i ddatblygu cynigion ar y cyd ar gyfer dylunio, cynnwys ac asesu set newydd sbon o gymwysterau TGAU. Rydyn ni am wneud yn siŵr y bydd y cymwysterau newydd hyn yn helpu canolfannau i wneud y Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiant ac i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

Ddydd Mawrth 4 Hydref, byddwn ni'n lansio ein hymgyngoriad cyhoeddus diweddaraf ac ehangaf hyd yn hyn. Rydyn ni eisiau gwybod beth yw barn dysgwyr, rhieni, athrawon, cyflogwyr, ac aelodau'r cyhoedd am y cynigion TGAU. Bydd yr ymgynghoriad yn para am 10 wythnos tan ddydd Mercher 14 Rhagfyr.

Bydd eich adborth yn helpu i lunio'r gofynion dylunio terfynol y mae'n rhaid i CBAC a chyrrff dyfarnu eraill eu dilyn wrth ddatblygu'r manylebau manwl ar gyfer y cymwysterau newydd hyn.

Er mwyn ei gwneud hi'n hawdd ymateb, bydd hwn yn ymgynghoriad ar-lein gan ddefnyddio ein platfform ymgysylltu **Dweud Eich Dweud** newydd. Yno, byddwch chi (a'ch tîm) yn gallu darllen a rhoi sylwadau ar y cynigion dylunio ar gyfer pob cymhwyster newydd. Bydd y rhain yn cael eu grwpio o gwmpas y chwe maes dysgu a phrofiad. Gallwch chi ymateb i gynifer o gynigion unigol ag y dymunwch, a gallwch chi hefyd roi adborth ar y cynigion cyffredinol a'u heffeithiau posibl.

Mae'n bwysig bod gan ddysgwyr lais cryf o ran helpu i lunio cymwysterau TGAU y dyfodol, ac rydyn ni wedi cynhyrchu fersiwn o'r cynigion sy'n addas i bobl ifanc er mwyn iddyn nhw ddweud eu dweud.

Byddwn ni'n ysgrifennu atoch chi eto pan fydd yr ymgynghoriad yn mynd yn fyw gyda gwybodaeth am sut i gael gafael arno. Gallwch chi hefyd edrych ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael diweddiadau.

Mae'r ymgynghoriad yma'n un rhan o'n gwaith Cymwys ar gyfer y dyfodol i ddiwygio'r ystod lawn o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed. Ddechrau'r flwyddyn nesaf, byddwn ni'n ymgynghori ar gynigion i gytuno ar ba gymwysterau eraill fydd ar gael, ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU, fel rhan o'r cynnig ehangach. Bydd hyn yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol a'r rheini sy'n darparu sgiliau i ddysgwyr ar gyfer bywyd a gwaith.

## **Adroddiad Ymgysylltu â Dysgwyr**

Eleni, rydyn ni wedi siarad ag amrywiaeth eang o ddysgwyr a darparwyr addysg fel rhan o'n sgwrs genedlaethol ar ddyfodol cymwysterau. Mae hyn yn cefnogi datblygu a chyflawni cynigion ar y cyd ar gyfer ein rhaglen Cymwys ar gyfer y dyfodol.

Fe wnaethon ni gwblhau cyfres o weithdai a grwpiau ffocws gyda bron i 900 o ddysgwyr yn rhannu eu barn am asesiadau TGAU. Fe wnaethon ni hefyd gynnal arolwg a dderbyniodd dros 500 o ymatebion er mwyn cael darlun mwy eglur gan ddysgwyr.

Bydd canfyddiadau'r adroddiad llawn yn cael eu cyhoeddi'n fuan a byddan nhw ar gael ar [ein gwefan](#).

## **Grwpiau Cyngori i Ddysgwyr**

Yn ystod wythnosau cyntaf y tymor hwn, mae ein tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi bod yn brysur yn mynychu digwyddiadau'r glas ac yn siarad â dysgwyr am ymuno ag un o'n Grwpiau Cyngori i Ddysgwyr.

Mae ein grwpiau dysgwyr yn gwneud yn siŵr bod llais y dysgwr wedi'i wreiddio yn ein gwaith. Mae ymuno'n cynnig cyfle i ddysgwyr gymryd rhan a helpu i lunio cymwysterau 'Gwneud-i-Gymru' ar gyfer y dyfodol. Gall ymuno helpu dysgwyr i fagu hyder a datblygu eu sgiliau proffesiynol ar yr un pryd.

Mae amser o hyd i wneud cais i ymuno ag un o'n grwpiau dysgwyr, felly os oes gan eich dysgwyr chi ddi-ddordeb, cofiwch eu hannog i [wneud cais drwy ein gwefan](#).

Yn gywir



**Philip Blaker**

*Prif Weithredwr*